# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (247)

**Dyddiad: Dydd Mawrth, 30 Ionawr 2007**
**Amser: 2.00pm**

**Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma**

**Eitem 1 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**

**Gofynnwyd y 15 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 4 a 9 yn ôl.**

.................................

**3.03pm**
**Eitem 2 - Y Datganiad Busnes**
Derbyniwyd y Datganiad Busnes.

.................................

### 3.10pm
### Eitem 3 - Cynnig i gymeradwyo Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007

**NDM3412 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y cynllun:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd egwyddor y cynllun.**

**NDM3413 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 23 Ionawr 2007 ynghylch y cynllun drafft, Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y cynllun drafft, Cynllun Credydau Treth (Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant) (Cymru) 2007 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007;
b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 23 Ionawr 2007; ac
c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynllun:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd y cynllun.**

.................................

## 3.13pm
## Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) 2007

**NDM3414 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd egwyddor y rheoliadau.**

**NDM3415 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Ionawr 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd) (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y rheoliadau:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd y Rheoliadau.**

.................................

## 3.19pm
## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Deintyddol Byrddau Iechyd Lleol 2007 o dan Reol Sefydlog 29

**NDM3416 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn ystyried egwyddor Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Deintyddol Byrddau Iechyd Lleol 2007 y

gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y cyfarwyddiadau:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 8 | 6 | 51 |

**Derbyniwyd egwyddor y cyfarwyddiadau.**

**NDM3417 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ynghylch Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Deintyddol Byrddau Iechyd Lleol 2007 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Ionawr 2007; a

2. Gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii) yn cymeradwyo bod Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Deintyddol Byrddau Iechyd Lleol 2007 yn cael eu gwneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cyarwyddiadau:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 37 | 8 | 6 | 51 |

**Derbyniwyd y cyfarwyddiadau.**

.................................

## 3.36pm
## Eitem 6 - Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Iechyd 2006 a Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 i Brif Weinidog Cymru

**NDM3418 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62(1) (b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn adrannau 10(4), 10(5), 48(1), (2) a (4), 49 (3), 51(4) a pharagraff 16 o Atodlen 1 i Ddeddf Iechyd 2006 a pharagraffau 3(4), 4(2), 9(2) a 9(4) o Atodlen 12B i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 3 i Ddeddf Iechyd 2006), ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan wybod y cânt eu dirprwyo ymhellach, fel y bo'n briodol, i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig**:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 2 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

.................................

## 3.36pm
## Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân
## Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Iechyd 2006 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2007

**NDM3419 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Iechyd 2006 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y gorchymyn:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 2 | 5 | 55 |

**Derbyniwyd egwyddor y gorchymyn.**

**NDM3420 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 23 Ionawr 2007 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Iechyd 2006 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Iechyd 2006 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2007 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y gorchymyn:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 1 | 2 | 55 |

**Derbyniwyd y gorchymyn.**

.................................

## Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007

**NDM3421 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007.

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Leanne Wood (Canol De Cymru):**
Yn gresynu nad oes unrhyw eithriadau ar gael i ganiatáu ysmygu mewn ystafell sydd wedi'i hawyru'n llawn mewn adeilad trwyddedig lle nad oes neb yn gweithio.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y gwelliant i egwyddor y rheoliadau:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 7 | 2 | 46 | 55 |

**Gwrthodwyd y gwelliant i egwyddor y rheoliadau.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 2 | 6 | 55 |

**Derbyniwyd egwyddor y rheoliadau.**

### NDM3422 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Ionawr 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Karen Sinclair (De Clwyd); Ann Jones (Dyffryn Clwyd); Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu gwneud y gwelliant a ganlyn i Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007, y gosodwyd drafft ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007.

Gwelliant

Yn Rheoliad 1.—(1) dileu "6am ar 2 Ebrill 2007" ac yn ei le rhoi "6am ar 1 Gorffennaf 2007"

**Datganiad o ddiben a chost a wnaed yn unol â Rheol Sefydlog 24.16 (ii)**

**Diben**

Sicrhau bod Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007 yn unol â'r rheoliadau yn Lloegr.

**Effaith**

Gwarchod sefydliadau ger y ffin rhag unrhyw effaith economaidd andwyol a fyddai'n deillio o weithredu'r rheoliadau ar ddyddiadau gwahanol.

**Goblygiadau o ran cost**

Nid ydym yn disgwyl unrhyw gostau ychwanegol arwyddocaol.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y gwelliant i'r rheoliadau:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 1 | 39 | 52 |

**Gwrthodwyd y gwelliant i'r rheoliadau.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y rheoliadau:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 2 | 6 | 54 |

**Derbyniwyd y rheoliadau.**

.................................

## 5.02pm

## Eitem 9 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Nyrsys sy'n Rhagnodi'n Annibynnol, Rhagnodwyr Atodol, Nyrsys-ragnodwyr Annibynnol a Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol) (Cymru) 2007

### NDM3423 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Nyrsys sy'n Rhagnodi'n Annibynnol, Rhagnodwyr Atodol, Nyrsys-ragnodwyr Annibynnol a Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Rhagfyr 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd egwyddor y Rheoliadau.**

### NDM3424 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Nyrsys sy'n Rhagnodi'n Annibynnol, Rhagnodwyr Atodol, Nyrsys-ragnodwyr Annibynnol a Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol) (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau Amrywiol ynghylch Nyrsys sy'n Rhagnodi'n Annibynnol, Rhagnodwyr Atodol, Nyrsys-ragnodwyr Annibynnol a Fferyllwyr-ragnodwyr Annibynnol) (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Rhagfyr 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Rhagfyr 2006.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y rheoliadau:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd y rheoliadau.**

.................................

## 5.07pm

## Eitem 10 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) (Diwygio) 2007

**NDM3425 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) (Diwygio) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 0 | 51 |

**Derbyniwyd egwyddor y rheoliadau.**

**NDM3426 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 23 Ionawr 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) (Diwygio) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Tir heb ei Drin ac Ardaloedd Lled-naturiol) (Cymru) (Diwygio) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007

**Cynhaliwyd pleidlais ar y rheoliadau:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y rheoliadau.**

.................................

## 5.11pm

## Eitem 11 - Cynnig i ddiwyigio Rheol Sefydlog 18

**NDM3427 Jenny Randerson (Canol Caerdydd)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu'n unol ag adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 37:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at yr Aelodau ar 23 Ionawr; a

2. Yn cymeradwyo'r gwelliannau i'r Rheolau Sefydlog a amlinellir yn adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

.................................

## 5.12pm

## Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân
## Eitem 12 - Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i Bwyllgor y Ty

**NDM3428 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62 (1) (a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Bwyllgor y Ty y swyddogaethau a gynhwysir ym mharagraffau 5 a 6 o Atodlen 2 (fel y'u diwygiwyd gan baragraff 18 Atodlen 11) ac ym mharagraff 43(10) o atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan wybod y cânt eu dirprwyo ymhellach, fel y bo'n briodol, i staff y Cynulliad.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 48 | 0 | 0 | 48 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

.................................

## Eitem 13 - Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i Brif Weinidog Cymru

**NDM3429 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu'n unol ag adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad y swyddogaethau

hynny o eiddo’r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn ac o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac a nodir isod.

Y swyddogaethau hynny yw’r rhai a gynhwysir yn adrannau 96 (fel y’i diwygiwyd gan baragraff 51 o Atodlen 11), 118(2) (fel y’i diwygiwyd gan baragraff 54 o Atodlen 11), 120 (fel y’i diwygiwyd gan baragraff 56 o Atodlen 11), 121 (fel y’i diwygiwyd gan baragraff 57 o Atodlen 11) a pharagraffau 3 a 53 o Atodlen 11.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau’r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan wybod y cânt eu dirprwyo ymhellach, fel y bo’n briodol, i’r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 49 | 0 | 0 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

.................................

## 5.13pm

## Eitem 14 - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru

### NDM3430 Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymrwymo i fuddsoddi mwy o arian mewn tai fforddiadwy;

2. Yn cydnabod bod cynnydd mewn buddsoddiad ac mewn capasiti ar gyfer tai a chymorth ym maes tai yn hanfodol o ran cydlyniant cymdeithasol Cymru i’r dyfodol.

## 5.31pm
## Cynnig Trefniadaol

Yn unol â Rheol Sefydlog 6.21, rhoddodd y Trefnydd gynnig trefniadol gerbron i estyn y cyfarfod am hanner awr. Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 19 | 0 | 2 | 21 |

**Derbyniwyd y cynnig trefniadol.**

## Eitem 14 - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru - (Parhad)

## Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

Yn rhwymo Llywodraeth y Cynulliad i weithio gyda'i phartneriaid mewn awdurdodau lleol, mewn cymdeithasau tai ac yn y diwydiant adeiladu tai, i sicrhau bod y buddsoddiad presennol yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf ac i ganfod ffyrdd o gynyddu’r buddsoddiad cyffredinol mewn tai fforddiadwy ledled Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 14 | 49 |

Derbyniwyd Gwelliant 1

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod mai’r polisi ‘Hawl i Brynu’, a gyflwynwyd gan y Llywodraeth Geidwadol ac a barhawyd gan y Llywodraeth Lafur, yw’r prif reswm dros brinder tai fforddiadwy yn y sector rhentu.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 15 | 0 | 34 | 49 |

Gwrthodwyd Gwelliant 2

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid rhoi grym i awdurdodau lleol reoli lefel perchnogaeth ail gartrefi yn eu hardaloedd.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 8 | 28 | 49 |

Gwrthodwyd Gwelliant 3

**Gwelliant 4 -  Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i alluogi awdurdodau lleol i fynnu bod prynwyr ail gartrefi yn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar sail newid defnydd, gan eu bod yn addasu cartrefi amser llawn i fod yn llety rhan amser.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 8 | 28 | 50 |

Gwrthodwyd Gwelliant 4

**Gwelliant 5 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu, mewn egwyddor, y dylai fod modd i'r Cynulliad alluogi awdurdodau lleol i ohirio'r hawl i brynu.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 5:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 0 | 8 | 50 |

Derbyniwyd Gwelliant 5

**Gwelliant 6 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i annog cymunedau i reoli'u stoc dai eu hunain trwy ddatblygu Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 6:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 22 | 0 | 28 | 50 |

Gwrthodwyd Gwelliant 6

**Gwelliant 7 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu nad yw'r Llywodraeth Lafur yn San Steffan wedi gweithredu ar geisiadau i roi grym i'r

Cynulliad alluogi awdurdodau lleol i ohirio’r hawl i brynu.

Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 7:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 28 | 8 | 50 |

Derbyniwyd Gwelliant 7

**Y cynnig, wedi’i ddiwygio**

**NDM3430 Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ymrwymo i fuddsoddi mwy o arian mewn tai fforddiadwy;

2. Yn rhwymo Llywodraeth y Cynulliad i weithio gyda'i phartneriaid mewn awdurdodau lleol, mewn cymdeithasau tai ac yn y diwydiant adeiladu tai, i sicrhau bod y buddsoddiad presennol yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf ac i ganfod ffyrdd o gynyddu’r buddsoddiad cyffredinol mewn tai fforddiadwy ledled Cymru.

3. Yn credu, mewn egwyddor, y dylai fod modd i’r Cynulliad alluogi awdurdodau lleol i ohirio’r hawl i brynu.

4. Yn gresynu nad yw’r Llywodraeth Lafur yn San Steffan wedi gweithredu ar geisiadau i roi grym i’r Cynulliad alluogi awdurdodau lleol i ohirio’r hawl i brynu.

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 8 | 6 | 50 |

**Derbyniwyd y cynnig (wedi’i ddiwygio).**

.................................

**6.04pm**
**Cynnig Trefniadol**

Yn unol â Rheol Sefydlog 6.19(i), rhoddodd Ann Jones gynnig trefniadol gerbron i ohirio’r cynnig o dan Eitem 15. Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O Blaid | Ymatal | Yn Erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 1 | 42 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## Eitem 15 - Dadl ar brosiect craffu'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: "Trefniadau Etholiadol yng Nghymru" – Wedi’i gohirio

**NDM3431 Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheolau Sefydlog 6.6 a 9.9:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, sef y prosiect craffu ar y Trefniadau Etholiadol yng Nghymru, y gosodwyd copi ohono gerbron y Cynulliad ddydd Mercher 10 Ionawr 2007.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.05pm**

# Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 12.30pm dydd Iau 1 Chwefror 2007

Ysgrifenyddiaeth y Siambr.

**Penderfyniadau**

**Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Busnes a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2007 penderfynodd y Dirprwy Lywydd, yn unol â Rheol Sefydlog 24.6 nad oes angen cyfeirio’r ddeddfwriaeth ganlynol i’w**

**hystyried ymhellach gan bwyllgor pwnc:**

- Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Cod Ymarfer (Tai Ymddeol Preifat) (Cymru) 2007
- Cynnig i Gymeradwyo Gorchymyn Deddf Plant a Mabwysiadu 2006 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2007
- Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Tiroedd Comin (Hollti Hawliau) (Cymru) 2007
- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Darpariaethau Ychwanegol ar gyfer Diystyru Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2007
- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2007
- Cynnig i gymeradwyo Gorchymyn y Dreth Gyngor (Diystyru Disgownt) (Diwygio) (Cymru) 2007
- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2007
- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynhyrchion sy'n Dod o Anifeiliaid (Mewnforion Trydydd Gwledydd) (Cymru) 2007
- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2007
- Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi’u Rhewi’n Gyflym (Cymru) 2007